## Mae’r llu’n dweud...

Yn cwmpasu 4,188 o filltiroedd sgwâr, Dyfed-Powys yw’r ardal fwyaf i unrhyw lu yng Nghymru a Lloegr.

Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd A a B yn bennaf, 2 borthladd mawr, 350 o filltiroedd o forlin ac ardaloedd enfawr o gefn gwlad mae daearyddiaeth ardal y llu’n cyflwyno heriau sylweddol.

Gwasgarir y boblogaeth o 515,871 ar draws ardaloedd gwledig eang, trefi gwyliau a threfi marchnad heblaw am ardaloedd â phoblogaeth drymach megis Llanelli ac Aberdaugleddau.

Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno galwadau unigryw gyda niferoedd mawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol megis Aberystwyth, Dinbych y Pysgod ac Aberhonddu. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hunan ar gyfer troseddu, traffig a phlismona ffyrdd.

Rydym yn cael ein herio i sicrhau bod ein gweithlu’n weladwy er mwyn gwella boddhad dioddefwyr, amddiffyn y rhai sy’n hyglwyf, atal troseddu a dwyn troseddwyr i gyfiawnder.

Mae’r llu wedi buddsoddi’n sylweddol mewn rhaglen blismona ddigidol sy’n darparu mynediad digyffelyb i systemau’r llu i swyddogion mewn cymunedau.

Siaredir Cymraeg gan 32% o bobl o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Ers 1 Ebrill 2010, mae niferoedd swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn wedi syrthio o 1211 i 1156 a mae niferoedd y staff heddlu wedi syrthio o 713 i 615. Mae ein gweithlu hefyd yn cynnwys 148 swyddog PCSO a 174 o gwnstabliaid arbennig.

Ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, mae Cyllid Grant Canolog wedi lleihau o 21%, £13.5miliwn. Yn ystod yr amser hwnnw, gofynnwyd i’r llu wneud arbedion o £23.5miliwn.

Er bod troseddau traddodiadol wedi syrthio o ran nifer, mae’r galw’n dal i dyfu. Yn fwyaf trawiadol, mae’r galw ynghylch Diogelwch y Cyhoedd a Phersonau Ar Goll wedi cynyddu ers 2012 o 13% a 15% yn ei dro.

Mae digwyddiadau yn cynnwys afiechyd meddwl a throseddau mwy cymhleth megis Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cynyddu, gan arwain at alw cyfnewidiol ar ein hadnoddau.

Mae'r llu wedi profi newidiadau arwyddocaol i'w arweinyddiaeth weithredol yn y flwyddyn ddiwethaf ac erbyn hyn mae o dan arweinyddiaeth Prif Gwnstabl newydd.

**Ymwadiad: mae'r datganiad uchod wedi'i baratoi gan Heddlu Dyfed-Powys. Nid yw'r barnau a'r wybodaeth arno o angenrheidrwydd yn cyfateb i farn yr HMIC.**

## Mae HMIC yn dweud...

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwasanaethau plismona i'r ardaloedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae ardal yr heddlu'n cwmpasu 4,230 o filltiroedd sgwâr, gydag oddeutu 350 milltir o forlin yn ne-orllewin Cymru. Er bod rhai ardaloedd sy'n fwy cefnog, mae gan Ddyfed-Powys lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 0.5 miliwn o bobl yn byw mewn sefyllfa sy'n wledig yn bennaf. Mae gan yr ardal ardaloedd trefol bach, amlwg gan gynnwys trefi Caerfyrddin, Llanelli, Aberdaugleddau, ac Aberystwyth. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr y brifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys porthladd môr mawr.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd llai a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OA). Diffiniwyd y rhain gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn casglu ynghyd bobl â nodweddion tebyg ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwysedd y boblogaeth mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 20,166 o hectarau, a mae'r un lleiaf yn cynnwys llai na 0.02 hectar. Mae maes pêl-droed yn cynnwys oddeutu 0.75 hectar.

Mae 1,695 OA yn Nyfed-Powys â maint cyfartalog o 647 o hectarau sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87. Er bod lleiafrif (23 y cant) o ardaloedd OA yn Nyfed-Powys yn gymharol fach ar lai na 10 hectar, mae cyfran fwy (45 y cant) yn fawr iawn o ran maint (dros 100 o hectarau) sy'n arddangos natur wledig yr ardal yn bennaf. Canolbwyntir yr ardaloedd OA lleiaf yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Aberdaugleddau, ac Aberystwyth, ac mae'r gwasgariad mwyaf ar draws yr ardaloedd gwledig a mynyddig eang â phoblogaeth fwy gwasgaredig.

Y fantais o ddadansoddi ar y lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy’n canolbwyntio ar bobl. Mae gwahaniaethau o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol pobl sy’n byw mewn gwahanol ardaloedd OA yn arwain at ymddygiadau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr megis y cyfrifiad, data pwynt diddordeb yr Arolwg Ordnans (OS) a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda’r London School of Economics i ddefnyddio technegau econofetrig i roi model ystadegol a rhagweld lefel y galwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Trwy ddefnyddio data o ddigwyddiadau’r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidion) a dynnir o ddata cyfrifiad, data pwynt diddordeb OS a setiau data llai eraill ar gyfer pob OA, mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA a phenderfynu pa mor heriol y bydd pob OA yn debygol o fod i’w blismona. Hefyd rydym wedi defnyddio prisiau tai o’r Gofrestrfa Tir fel dangosydd procsi ar gyfer cyfoeth. Mae gan Ddyfed-Powys bris tŷ canolrifol, wedi’i seilio ar yr ardaloedd OA sydd wedi cael trafodyn eiddo o fewn y 12 mis diwethaf, o £159,500, sy’n is na’r canolrif ar gyfer Cymru a Lloegr (£230,358). Mae gan Ddyfed-Powys 14.5 y cant o’i ardaloedd OA o fewn y 10 y cant isaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol, tra bod 3.3 y cant o ardaloedd OA o fewn y 10 y cant uchaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol (a 0.6 y cant o ardaloedd OA o fewn yr 1 y cant uchaf). Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd mawr o dai gwerth isel ac amddifadedd, gyda rhai ardaloedd cefnog bach iawn â thai drutach.

Nid yw’r galwadau am wasanaethau heddlu yr un ym mhob ardal o Gymru a Lloegr. Mae ein dadansoddiad wedi datgelu bod nodweddion demograffig-gymdeithasol ardal yn dylanwadu ar y galwadau am wasanaethau heddlu yn yr ardal honno.

Ym mhob heddlu, mae crynhoad o alwadau rhagweledig mewn nifer fach o’i ardaloedd OA. O ystyried Cymru a Lloegr fel cyfanrwydd mae’r 1,811 (1 y cant) mwyaf heriol o’r rhain yn cyfrif am 10.8 y cant o’r holl ddigwyddiadau rhagweledig. Rydym wedi dynodi’r ardaloedd hyn fel rhai sy’n cyflwyno her uchel iawn ac wedi canfod y’u nodweddir gan grynhoad uchel o bobl yn byw, gweithio, cymdeithasu neu deithio yn yr ardal. Mae nodweddion sy’n achosi a/neu ddangos crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, mae’r nodweddion hyn wedi’u cyfuno.

Mae 0.6 y cant o’r ardaloedd o her uchel ar y lefel genedlaethol yn Nyfed-Powys. Mae’r un y cant o ardaloedd OA sy’n cyflwyno’r her uchaf yn y llu’n cyfrif am 10.4 y cant o ddigwyddiadau rhagweledig Dyfed-Powys, a mae’r galwadau rhagweledig hyn yn debygol o ddigwydd mewn dim ond 0.1 y cant o holl ardal y llu.

O fewn Dyfed-Powys:

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ddigwyddiadau’n is na’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o droseddu’n isel iawn o gymharu â’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y cyfan yn unol â’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn digwyddiadau ar y cyfan yn unol â’r lefel genedlaethol o un y cant; a
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn troseddau’n is na’r lefel genedlaethol o un y cant;

Fel dangosydd o’r her i’r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Ddyfed-Powys rydym wedi cyfrifo’r amser teithio a phellter cyfartalog o bwynt canolog ardal y llu i ganol pob un o’r 4,230 o ardaloedd OA. Mae’r cyfrifiadau hyn o bellter ac amser wedi’u seilio ar ddefnyddio’r rhwydwaith ffyrdd o dan amodau a chyflymderau gyrru arferol a maent yn rhoi dangosyddion o faint yr ardal ac ansawdd ei rhwydwaith ffyrdd.

Mae gan Ddyfed-Powys 500 milltir o draffyrdd a chefnffyrdd; mae’r pellter teithio cyfartalog o 38 milltir (yr hwyaf yw 103 milltir a’r byrraf yw 0.6 milltir) a’r amser teithio cyfartalog o 68 munud o ganol y llu i bob OA yn sylweddol uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol priodol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint a chymhlethdod Dyfed-Powys a natur ei ffyrdd.

Er y gall y crynhoad o alwadau mewn nifer fach o leoliadau (yn cwmpasu ardal fach iawn) fod yn ddefnyddiol o ran canolbwyntio adnoddau, nid yw’n gyfanrwydd y galw. Mae’r ddarpariaeth o wasanaethau’n ymestyn y tu hwnt i’r ardaloedd hynny sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd lleiaf heriol a mwyaf anghysbell. Mae’r her o ddarparu gwasanaethau ledled Dyfed-Powys yn swyddogaeth sy’n cynnwys llawer o bethau gan gynnwys maint a thopograffeg yr ardal, y rhwydwaith ffyrdd a faint o dagfeydd sydd ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae’r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut mae adnoddau’r heddlu’n cael eu trefnu a’u rheoli, er enghraifft ble lleolir swyddogion heddlu a’u patrymau gweithio.